## Hysbysiad o Gynnig

# GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT (MAES PARCIO STRYD NEWYDD, YR WYDDGRUG) (GWAHARDD GYRRU) (AR WAHÂN I FYSIAU) 2022

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud Gorchymyn arbrofol ar 18 Hydref 2022 dan Adran 9 a 10 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a phob pŵer arall sy'n galluogi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu, yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, a'i effaith fydd:-

1) Gwahardd pob cerbyd, ar wahân i fysiau, rhag mynd i mewn i gyfleuster Parcio Bysiau dynodedig o fewn Maes Parcio Ffordd Newydd, yr Wyddgrug.

Daw'r Gorchymyn Arbrofol i rym ar 28 Hydref 2022 am gyfnod o 18 mis. Mae copi o'r Gorchymyn ynghyd â chynllun yn dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn i'w gweld yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell yr Wyddgrug, Ffordd yr Iarll, yr Wyddgrug, CH7 1AP yn ystod oriau swyddfa neu gellir eu gweld ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoliadau Traffig neu gellir gofyn am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Bydd y Cyngor yn ystyried, maes o law, a ddylai darpariaethau'r Gorchymyn barhau mewn grym am gyfnod amhenodol. O fewn cyfnod o 6 mis wedi i'r Gorchymyn ddod i rym, neu os yw'r Gorchymyn yn cael ei addasu neu ei amrywio wedi hynny, ers i'r addasiad neu'r amrywiad hwnnw ddod i rym (pa un bynnag yw'r hwyraf), gall unrhyw un wrthwynebu gwneud y Gorchymyn at bwrpas parhad amhenodol o'r fath.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn, a'r sail ar gyfer gwrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod o fewn chwe mis i'r dyddiad y bydd y Gorchymyn hwn wedi dod i rym, neu'r dyddiad y bydd unrhyw amrywiad neu addasiad neu'r amrywiad neu'r addasiad diweddaraf wedi dod i rym gan nodi cyfeirnod SS/TRO/JB/EO/2022.

Os bydd yn ymddangos yn hanfodol i'r Cyngor ei bod yn angenrheidiol er budd symud traffig mewn modd cyflym, cyfleus neu ddiogel, neu i ddarparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd neu ar gyfer cadw neu wella amwynderau'r ardal mae unrhyw ddarn o ffordd a effeithir gan y Gorchymyn yn rhedeg drwyddi, gall y swyddog a enwir isod o'r Cyngor, addasu neu atal y Gorchymyn neu ei ddarpariaethau.

Gall unrhyw un sy'n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn Arbrofol (a wnaed ar 18 Hydref 2022) neu unrhyw ddarpariaeth ynddo ar sail nad ydynt o fewn y grymoedd y cyflwynwyd gan y ddeddfwriaeth berthnasol, neu ar sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofynion deddfwriaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos o 18 Hydref 2022 i'r diben hwn.

Dyddiedig y 21 diwrnod o Hydref 2022

Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant)
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF

**DYDDIEDIG 18 HYDREF 2022**

# GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT (MAES PARCIO STRYD NEWYDD, YR WYDDGRUG) (GWAHARDD GYRRU) (AR WAHÂN I FYSIAU) 2022


Katie Wilby,

Prif Swyddog

(Gwasanaethau Stryd a Chludiant),

Neuadd y Sir,

Yr Wyddgrug,

Sir y Fflint,

CH7 6NF

# GORCHYMYN ARBROFOL
# CYNGOR SIR Y FFLINT
# (MAES PARCIO STRYD NEWYDD, YR WYDDGRUG)
# (GWAHARDD GYRRU) (AR WAHÂN I FYSIAU)
# 2022

Mae Cyngor Sir y Fflint, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan Adran 9 a 10 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984"), fel y'i diwygiwyd, a'r holl bwerau galluogi eraill a roddwyd iddo, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

2. Ac eithrio fel y darperir yn Erthygl 3 y Gorchymyn hwn, ni chaiff yr un person achosi i gerbyd, ar wahân i Fysiau, rhag cael mynediad at y cyfleuster Maes Parcio Bysiau o fewn Maes Parcio Stryd Newydd, yr Wyddgrug.

3. Ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 2 y Gorchymyn hwn yn berthnasol a fydd yn atal unrhyw un rhag achosi i unrhyw gerbyd deithio ar hyd y darnau o ffordd yn yr Erthygl honno, os ydi'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio:-

a) I gael mynediad at eiddo gyferbyn;
b) Mewn argyfwng at ddibenion y frigâd dân, ambiwlans neu heddlu
c) Mewn cysylltiad â chyflawni:-
i) Cynnal, gwella neu ailadeiladu'r darn o'r ffordd dan sylw.
ii) Gwaith gosod, codi, addasu neu drwsio ar dir cyfagos i'r darn o ffordd neu ymyl y ffordd a nodir, mewn perthynas ag unrhyw garthffos neu unrhyw brif gyflenwad, pibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu unrhyw linell o gyfarpar telathrebu fel y'i diffinnir yn Neddf Telathrebu 2003;
iii) Gweithrediadau adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;
d) Yng ngwasanaeth yr awdurdod lleol, cwmni cyfleustodau cyhoeddus neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â phŵerau neu ddyletswyddau statudol;
e) Cerbyd darparwr gwasanaeth cyffredinol (fel y'i diffinnir yn Adran 125 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000 i gael ei ddefnyddio at ddiben dosbarthu a/neu gasglu post;

4. Mae'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a roddir gan unrhyw reoliadau a wnaed neu sy'n cael effaith fel pe baent wedi'u gwneud dan Ddeddf 1984, neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall.

5. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

6. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 28 Hydref 2022 ac efallai bydd yn cael ei alw yn Orchymyn Arbrofol Cyngor Sir y Fflint (Maes Parcio Stryd Newydd, yr Wyddgrug) (Gwahardd Gyrru) (Ar wahân i Fysiau) 2022.

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau mewn grym am gyfnod heb fod yn hirach na 18 mis o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 y Gorchymyn hwn neu hyd nes mae'n cael ei wneud yn barhaol.


8. Yn unol ag adran 10(2) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, gall y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) os bydd yn ymddangos yn hanfodol ei bod yn angenrheidiol er budd symud traffig mewn modd cyflym, cyfleus neu ddiogel, neu i ddarparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd neu ar gyfer cadw neu wella amwynderau'r ardal mae unrhyw ddarn o ffordd a effeithir gan y Gorchymyn yn rhedeg drwyddi, addasu neu atal y Gorchymyn neu ei ddarpariaethau.

20193

**RHODDWYD SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
yn y fan hon )
ar y 18 diwrnod hwn o Hydref 2022 )
ym mhresenoldeb:- )

**Y CADEIRYDD**

~~**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**~~
**PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU**




## Notes:

GWAHARDD GYRRU AR - WAHÂN I FYSIAU

PROHIBITION OF DRIVING - EXCEPT COACHES

Mared Eastwood

Katie Wilby

Chief Officer (Streetscene and Transportation). County Hall, Mold, CH7 6NF
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thalnidiaeth). Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NF

Streetscene

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

BASED UPON VARIOUS ORDNANCE SURVEY MAPS WITH THE PERMISSION OF THE CONTROLLER OF HM STATIONARY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED LICENSE NUMBER LA 100023386L FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL, COUNTY HALL, MOLD.

| | | | |
|---|---|---|---|
| DRAWN BY: NGW | ~~PRELIMINARY~~ ~~APPROVAL~~ CONSTRUCTION | | New Street carpark, Mold<br>Prohibition of driving - except coaches<br>(Sheet 1 of 1) |
| CHECKED BY: SP | AMENDMENTS: | DATE | |
| SCALES: NTS | | | |
| NAT. GRID REF: N.A | | | DRAWING NUMBER HT/22/NSM 101 C1 |


**GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT (MAES PARCIO STRYD NEWYDD, YR WYDDGRUG) (GWAHARDD GYRRU) (AR WAHÂN I FYSIAU) 2022**

**DATGANIAD O RESYMAU DROS ARGYMELL GWNEUD Y GORCHYMYN ARBROFOL**

Ar 18 Hydref 2022, gwnaeth Cyngor Sir y Fflint Orchymyn Arbrofol yn gwahardd pob cerbyd, ar wahân i fysiau, rhag mynd i mewn i gyfleuster Parcio Bysiau dynodedig o fewn Maes Parcio Ffordd Newydd, yr Wyddgrug.

Mae'r cyfleuster Maes Parcio i Fysiau dynodedig yn gwella diogelwch ac amwynder yr ardal gyda'r Bysiau Mawr wedi parcio mewn modd mwy trefnus ac felly, ni ddylai unrhyw gerbyd arall ei ddefnyddio.

Dyddiedig 21 Hydref 2022



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR